



Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Sylfaenol Rhagfyr 2013

Mae Aelodaeth Sylfaenol yn cyfateb i waith a wneir dan oruchwyliaeth ar lefel broffesiynol sylfaenol. Disgwylir i'r ymgeisydd gynhyrchu gwaith cywir, addas a graenus o fewn terfynau amser.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 16

Llwyddo: 3

Yn anffodus, er bod rhai pethau da i'w canfod ym mwyafrif y sgrïptiau a gyflwynwyd, siom yw gorfod nodi mai canran fechan iawn yn unig a gyrhaeddodd y safon angenrheidiol i lwyddo yn yr arholiad y tro hwn.

Roedd y ddau ddarn a osodwyd, er eu bod yn cynnwys digon o elfennau heriol i fod yn addas ar gyfer arholiad, yn fwriadol yn ceisio sicrhau nad oedd y prawf yn tynnu cyfieithwyr ar y lefel hon allan o'u dyfnder. Siom, felly, yw gweld lleiafrif mor fach yn llwyddo i gyflwyno cyfieithiad boddhaol, yn enwedig gan fod cynifer yn cael y fath drafferth i gyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd yn y ddau ddarn:

...glimpsed at dusk darting through the night sky...

...ceir cipolwg arnynt yn gwibio drwy awyr y cyfnos...

...meet the needs of the majority...

...diwallu anghenion y mwyafrif...

...this involves time or money...

...golygu treulio amser neu wario arian...

...because of some steps...

...oherwydd bod grisiau i'w dringo...

Contrary to popular belief...

Yn groes i'r gred gyffredin...

...that this is because of the wheelchair, rather than the steps.

...mai'r gadair olwyn sy'n achosi hyn, yn hytrach na'r grisiau.

...when young bats are first learning to fly...

...pan fo ystumod ifanc yn dechrau dysgu hedfan...

ond cafwyd hefyd lawer iawn o gyfieithiadau aflwyddiannus, megis anawsterau wrth gyfleu'r ystyr:

Parish churches have been enduring features of the landscape...

1) Mae eglwysi plwyfi wedi bod yn goddef nodweddion y dirwedd...

2) Mae sawl eglwys blwyf wedi goddef effaith natur...

As Britain was gradually deforested...

Wrth i Brydain ddadmer yn raddol...

The social model is more inclusive...

Mae'r portread cymdeithasol yn fwy penodol...

...the disabling barrier.

...y rhwystr anabledig.

...valuable roosting sites...

...safleoedd nythu gwerthfawr...

Churchyards can be a good source of nearby food...

Mae digon o fwyd gerllaw mynwent eglwys...

...in areas where alternative roosts are scarce.

...mewn mannau lle mae clwydi cyfatebol yn brin.

...to meet the needs of the majority...

...i gyrraedd gofynion y mwyafrif...

Contrary to popular belief...

Yn wyneb y farn gyffredinol...

...belfries are often too draughty, dusty and noisy for bats!

... mae clochdai'n aml yn llawn llwch, sŵn ac yn rhy ddrafftog.

trafferth gydag amserau berfau:

...but may also spend the winter...

1) ...ond gallent hefyd dreulio'r gaeaf...

2) ...ond fe allent dreulio'r gaeaf...

Bats often seem to perceive...

Yn aml, ystyriai'r ystumod...

...when the weather is unfavourable.

...pe trôl'r tywydd yn chwerw.

The two most frequently mentioned...

Y ddau y sonnid amdanynt amlaf...

Several models of disability have been defined...

...defnyddir sawl darlun ar gyfer disgrifio anabledd.

The social model of disability... would see

...gwêl model cymdeithasol anabledd...

Mynegiant trwsgl a gwallau cystrawennol:

This model draws on the idea...

Mae'r model hwn yn tynnu casgliad ar y syniad...

Pro-active thought is given to how...

1) Rhoi'r ystyriaeth flaengar ar sut gall...

2) Rhoddir meddwl cadarnhaol i'r ffordd y gall...

The two most frequently mentioned...

Y ddau fodel sy'n cael eu cyfeirio atynt y mwyaf...

It is not seen as an issue of concern...

1) Nis gwelir ef fel mater o bryder...

2) Nis welir yn fater o bryder...

3) Ni chaiff ei drin fel bod yn fater o bwys...

Several models of disability have been defined over the last few years.

Mae sawl fodel anabledd wedi'u diffinio dros y blynyddoedd diwethaf.

A hefyd enghreifftiau niferus o fân wallau treiglo, teipio ac ati:

awyr tywyll

mae'r perthynas

yn ragweithiol

neu phan

mater hon

gael wared

yn fwy cynhwysiol

i sichrau

nifer of fodelau

pobl yn wedi meddwl

Fel y nodwyd eisoes, siomedig oedd y safon ar y cyfan, ac mae angen i'r ymgeiswyr hyn ddysgu trosi'r testun gwreiddiol yn fanwl gywir er mwyn llwyddo yn yr arholiad hwn. Dylid eu hannog i fanteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu sgiliau cyfieithu a gloywi eu sgiliau iaith. O wneud hynny, gallai'r safon angenrheidiol i lwyddo fod o fewn cyrraedd i nifer ohonynt yn y dyfodol.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 7

Llwyddo: 6

Braf yw nodi bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn y rownd hon wedi llwyddo i gyrraedd y safon angenrheidiol i lwyddo ar y lefel sylfaenol, ond serch hynny, boddhaol yn unig yw'r gwaith a gyflwynwyd ganddynt, ac ni lwyddodd yr un ymgeisydd i sicrhau gradd 1 ym mhob elfen. Wrth longyfarch yr ymgeiswyr llwyddiannus, felly, carwn eu hannog i fanteisio ar bob cyfle i loywi eu sgiliau.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a gafwyd yn y ddau ddarn:

Mae dim ond crybwyll y geiriau llau pen yn ddigon i godi'r ysfaf i grafu.

The mere mention of the words head lice is enough to make you want to scratch.

Dim ond maint hadau sesami ydy'r llau ond maen nhw'n glynu'n dynn wrth y gwallt...

The lice are no larger than sesame seeds but they cling doggedly to the hair...

Mae gafael y llau mor dynn fel bod brwsio neu olchi gwallt yn y dull arferol yn debygol o fod yn aneffeithiol, ond mae amrywiol driniaethau ar gael – holwch yn y fferyllfa i gael rhagor o wybodaeth.

The lice are so tenacious that brushing or washing the hair in the usual way is likely to be ineffective, but various treatments are available – ask at the pharmacy for further information.

Roedd y gwynt yn hwyliau Plaid Cymru...

1) Luck was on Plaid Cymru's side...

2) Plaid had the wind in their sails...

Prin fod angen cyfrif pleidleisiau Plaid Cymru: byddai wedi bod yn haws eu pwysu nhw.

Plaid Cymru's votes hardly needed counting: it would have been easier to weigh them.

... yn un o wardiau Llangefni aeth bron 50% o'r etholwyr ar ymweliad â'r orsaf bleidleisio.

... in one ward in Llangefni nearly 50% of the electorate visited the polling station.

Roedd y patrwm pleidleisio, wrth reswm, yn amrywio o ward i ward.

Of course the voting pattern varied from ward to ward.

Fodd bynnag, cafwyd hefyd enghreifftiau lle na lwyddwyd i greu cyfieithiad llwyddiannus:

...felly os na cheir triniaeth...

...so if no treatment is undertaken...

...byddai'n tyrchu'n drylwyr â'i chrib mân...

...she would delve deep into our hair with her little comb...

Prin fod angen...

As if there was a need...

Mae gfael y llau mor dynn...

Getting a tight enough grip on lice...

...mae'r cylch yn parhau a'r llau yn lluosogi.

1) ...the circle continues...

2) ...the cycle continues on and the eggs propagate.

A hefyd nifer o enghreifftiau lle nad oedd y dewis o eirfa neu ymadrodd yn taro deuddeg:

skin (neu skin of the head) yn lle 'scalp'

nits nurse yn lle 'nit nurse'

causing us to cry yn lle 'bringing tears to our eyes'

three months prior yn lle 'earlier' neu 'previously'

Enghraifft nodedig o hyn yn yr ail ddarn oedd defnydd sawl ymgeisydd o 'bi-election' yn hytrach na'r ffurf gywir 'By-election'. Gwall yw hwn sydd nid yn unig yn amlygu nad yw'r cyd-destun yn ddigon cyfarwydd i'r cyfieithydd, ond hefyd yn datgelu methiant i sylweddoli mai ystyr 'dau' sydd i'r rhagddodiad Saesneg 'bi-'.

Cafwyd hefyd un gair yn yr ail ddarn a loriodd bob un o'r ymgeiswyr, sef 'gorchestol'.

Defnyddiodd mwyafrif llethol y cyfieithwyr y gair 'Herculean', heb ystyried y ffaith mai wrth ddisgrifio tasg neu gamp y byddai hynny'n briodol. Yn y fan hon roedd angen bod yn ddigon mentrus i gynnig rhywbeth llai llythrennol, megis 'exaggerated', neu hyd yn oed 'over the top', gan y buasai hynny'n dangos dealltwriaeth o naws y darn, yn ogystal â'r union ystyr a gyfleir yma.

Fel y soniwyd eisoes, llwyddodd 6 o'r 7 ymgeisydd, ond nid oedd gwaith yr un ohonynt yn codi i dir uchel iawn. Y gobaith yw, felly, y bydd y garfan hon yn parhau i hogi eu sgiliau cyfieithu, fel eu bod yn datblygu eu crefft ymhellach, ac yn y man yn medru ymgeisio am aelodaeth gyflawn.